

Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen gydag atodiadau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cwmpasu paratoi a gweithredu peiriant sylfaen gydag atodiadau. Mae'r defnydd cymwys o beiriant sylfaen gydag atodiadau yn gofyn am sgil a gwybodaeth sylweddol.

Mae'r safon yn cynnwys defnyddio peiriannau sylfaen gydag ystod o atodiadau mewn amrywiaeth o dywydd, amodau tir a thirwedd. Bydd yr amodau hyn yn cael effaith ar ymdrin a defnyddio peiriant sylfaen ac atodiadau.

Wrth weithio gyda pheiriannau bydd angen eich bod wedi cael hyfforddiant priodol, ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Wrth ddefnyddio'r peiriant sylfaen ar y briffordd gyhoeddus bydd angen bod gennych y trwyddedau priodol ar gyfer eich hun a'r peiriant.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer wrth wneud y gwaith hwn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig
2. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
3. dewis y peiriant sylfaen cywir ar gyfer y gwaith yr ydych yn ei wneud
4. paratoi'r peiriant sylfaen trwy wneud gwiriadau ac addasiadau cyn cychwyn, yn unol â manylebau yn cynnwys yr holl offer diogelwch
5. cadarnhau bod y peiriant sylfaen yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio
6. gwirio ac addasu amgylchedd y gweithredwr i fodloni eich gofynion personol
7. dewis yr atodiadau priodol i wneud y gwaith gofynnol
8. sicrhau bod yr atodiadau yn addas ar gyfer y peiriant sylfaen
9. sicrhau bod yr atodiadau wedi eu gosod yn ddiogel
10. gwirio'r ardal waith uniongyrchol am beryglon a rhwystrau cyn symud i ffwrdd
11. defnyddio'r arwyddion rhybudd cywir bob amser
12. gweithredu a symud y peiriant sylfaen yn ddiogel, ac mewn ffordd sydd yn cyd-fynd â'r math o beiriant, atodiad a gweithrediad
13. sicrhau bod yr atodiad mewn safle cludo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn unol â'r manylebau
14. addasu gweithdrefnau gweithredu i ystyried unrhyw newidiadau yn y tywydd, amodau'r ddaear, mathau o dirwedd a chyfyngiadau'r safle
15. defnyddio rhagofalon ychwanegol wrth yrru am yn ôl neu symud a chydymffurfio â phellterau diogelwch gerllaw ffyrdd a llwybrau neu lle mae pobl eraill yn gweithio
16. cynnal effeithlonrwydd perfformiad y peiriant sylfaen a'r atodiad trwy ymdrin a chynnal a chadw priodol
17. ymdrin ag unrhyw beryglon a rhwystrau yn ystod y gweithrediad, yn unol ag ymarfer safonol
18. monitro gweithrediad yr atodiad ac adnabod unrhyw namau
19. atal ac ynysu'r peiriant sylfaen, yn unol ag ymarfer safonol
20. tynnu'r atodiad, lle y bo'n briodol, yn unol â'r manylebau
21. gadael y peiriant sylfaen a'r atodiad yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio ac mewn cyflwr addas ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol
22. dilyn arfer da amgylcheddol fel y nodir gan eich sefydliad a'r diwydiant, a lleihau niwed amgylcheddol
23. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg 2. sut i ddehongli asesiadau risg 3. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol (PPE) 4. y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â defnyddio peiriannau sylfaen ac atodiadau a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gwirio offer 5. y gwiriadau a'r addasiadau gofynnol cyn cychwyn ar gyfer y peiriant sylfaen ac atodiadau, a'r rhesymau pam y mae'n rhaid gwneud y rhain 6. y gofynion ar gyfer strwythurau diogelu'r peiriant a'r gweithredwr 7. y weithdrefn ar gyfer llwytho a dadlwytho peiriant sylfaen ac atodiadau o'r cludwr lle y bo'n briodol 8. sut i fynd ar ac oddi ar y peiriant sylfaen yn ddiogel 9. sut i ddechrau a diffodd y peiriant sylfaen yn cynnwys y gweithdrefnau cywir ar gyfer dechrau'r peiriant â naid 10. swyddogaeth yr holl reolyddion a'r offer ar gyfer y peiriant sylfaen a'r atodiad, yn cynnwys systemau cyfrifiadurol mewnol lle maent wedi eu gosod 11. y mathau o atodiadau sydd yn ddiogel i'w defnyddio gyda'r peiriant sylfaen a sut y cânt eu gosod 12. yr amodau y dylid eu hystyried wrth ystyried defnyddio'r atodiadau 13. sut i osod neu unioni atodiadau, lle bo angen 14. y ffordd briodol o ddefnyddio arwyddion rhybudd a dangosyddion 15. y ffyrdd y dylid gweithredu a symud y peiriant sylfaen, a sut y mae'n rhaid ystyried tywydd, amodau tir, mathau o dirwedd a'r gwaith sy'n cael ei wneud 16. y nodweddion a'r technegau gyrru amrywiol ar gyfer gyrru peiriant sylfaen gyda chyfluniadau olwynion gwahanol 17. gosod cymhorthion tyniant yn gywir a manteision ac anfanteision eu defnyddio 18. sut i weithredu a defnyddio atodiadau yn ddiogel yn cynnwys gwrthbwysio 19. y rheolyddion a'r gwasanaethau trydanol ar y peiriant sylfaen a'r atodiad 20. sut i roi'r atodiad mewn safle cludo a safle gweithio, lle y bo'n briodol 21. galluoedd y peiriant sylfaen a'r ffactorau a allai effeithio ar ei effeithlonrwydd 22. y mathau o beryglon a rhwystrau y gellir dod ar eu traws a sut y dylid ymdrin â'r rhain 23. sut i fonitro gweithrediad yr atodiad a'r camau y gallai fod eu hangen 24. y namau, y diffygion a thraul rhannau sydd yn digwydd gydag atodiadau a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gwaith coed 25. sut i gadw effeithlonrwydd y peiriant sylfaen a'r atodiad trwy wiriadau gweithredwr fel mater o drefn a gwaith cynnal a chadw fel mater o drefn yn unol â'r manylebau 26. sut i wneud atgyweiriadau sylfaenol ac i ble i gyfeirio problemau gyda'r peiriant sylfaen neu'r atodiad 27. y rhesymau pam y dylid gadael y peiriant sylfaen a'r atodiad mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol 28. sut i sefydlu a defnyddio ardaloedd ychwanegu tanwydd a chynnal a chadw lle y bo'n briodol 29. pwysigrwydd lleihau niwed amgylcheddol ac atal digwyddiadau o lygredd 30. pam y mae'n bwysig cynnal diogelwch a diogeledd y peiriant syfaen a'r atodiad yr holl amser 31. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANTw79

Paratoi a gweithredu peiriant syfaen gydag atodiadau



Geirfa